247

# CAN NEWYDD,

YN RHODDI HANES CARWRIAETH

## John Jones a Mary Morris,

O BLWYF St. PETERS, SIR FAESYFED:

*Yn nghyda'r modd y darfu i'w fam ef, Martha Jones, foddi ei hun o falais, o herwydd eu priodas hwynt, ar y dydd 1af o Fehefin diweddaf.*

---

## GAN R. WILLIAMS.

---

Cenir ar "Fryniau yr Iwerddon."

Pob dyn o berchen deall, modd diball yma dewch,
A diwyd rhowch wrandawiad i'r ganiad hon a gewch;
Dull cariad wy'n ei draethu mewn geiriau llwyrgu llon,
Pob mab neu liwdeg lodes gwrandewch yr hanes hon.

John Jones a Mary Morris wych, hysbys boed i chwi,
Wrth draethu'r gân a ganlyn yn awr yw 'nhestyn i;
Pa rai o achos cariad fu'n dyodde'n galed gur,
Yn mhlwyf St. Peters eirad, o fewn Maesyfed sir.

'Roedd ef o berchen golud trwy wynfyd yn ddiwad,
Sef pump cant yn y flwyddyn o living yn ei wlad;
Yn byw mewn eithaf pleser trwy bwer mwynder maith,
A'r ferch oedd forwyn gyflog deg enwog yn ei gwaith.

Un fwyndeg oedd o feauty fel heini lili hardd,
'Roedd lliw ei dwyrudd dirion fel rhosys cochion gardd,
A'i synwyr fel Susana mewn geiriau goleu'n gu,
Un ail i'r siriol seren nid oedd mewn llan na llu.

Y mab oedd flodau'r meibion, hyfrydlon oedd o fryd,
'Roedd ei gwmpeini gweddus yn barchus yn y byd,
Wrth wel'd y feinir fwyngu, a'i doniau llwyrgu llon,
Ei galon a'i chwennychodd, ffansiodd, hoffodd hon.

Ni thynai mo'i olygon oddiar y fwynlon ferch,
Nes myn'd o giliau'i galon yn ddigon sal o serch:
Mil gwell na'r merched mwyna, hawddgara, glana'o glod,
Oedd ganddo'i seren oleu, p'le bynag byddai'n bod.

Er hyny'r dyn nid allai mewn geiriau ddweyd ei gwyn,
Na thraethu gair o'i feddwl i'r feinir fanwl fwyn,
Rhag ofn na chai mo'i wrando na'i goelio ganddi'n gu,
Gwaith merch yn llawn o sobrwydd da hylwydd ydoedd hi.

Ryw ddydd fe gym'rodd galon, aeth at y fwynlon ferch,
Gan ddweyd, Fy meinir dawel, myfi sydd sal o'th serch;
Am hyny yn awr f' anwylyd lon hyfryd, lawn o hedd,
Gwna naill a'i safio 'mywyd, neu gyr fi o'r byd i'r bedd.

Pa beth 'rych chwi 'n ymofyn, atebai'r fun ddifai,
Ai rhagrith y'ch chwi'n siarad? rhowch glywed im yn glau;
Rhag dilyn eich hudoliaeth, a'ch gweniaith helaeth hir,
Fy Nuw sy ddigon abal i'm cynnal er pob cur.

Ail waeddai'r ferch synwyrgall heb ball o galon bur,
Amddiffyn di dy forwyn, fy Nuw, mewn gerwin gur;
A'r mab a uchel waeddai, Fy Nuw fo'n maddeu i mi,
Os gwneis erioed, lliw'r ewin, ddim yn eich erbyn chwi.

X 205 22609

Gwybyddwch chwi, lliw'r monod yn hynod yma 'nawr,
Mai'ch caru 'rwyf o'm calon, fun dirion wiwlon wawr;
Os metha'i 'ch cael yn briod, fy meinir dêg ar dwyn,
I'm bedd chwi gewch fy ngweled yn myned er eich mwyn.

Ac felly ar fyr eiriau cytunai'r mab a'r ferch
I ffyddlon garu eu gilydd yn siriol trwy bur serch;
Ond troes ei fam yn erbyn y glanddyn hardd o glod,
Priodas rhwng y ddauddyn er dim ni fynai fod.

Gwrandawai'r wraig aflawen ar lais y Satan sur,
A ffordd i ladd y forwyn ddyfeisiodd cyn pen hir;
A'i gwas hi a gytunodd am fyn'd â'r gangen gu,
A'i thaflu i lyn y felin—gael dwyn ei bywyd hi.

Dhyw nos hi a ddywedd wrthi, Dewch Mari gyda mi
I lân y llyn i rodio, cawn James yn gwmni cu;
A myn'd a wnaeth hi'n ebrwydd, annedwydd oedd y nod,
Ni wyddai'r liwdeg lodes pa falais oedd i fod.

A'r gwas a dd'wedodd wrthi, Gwrandewch y fwyngu fun,
Rhaid imi'n awr eich boddi, er lloned ydyw'ch llun!
Er begian am ei bywyd dros enyd yno'n siwr,
Trugaredd ni chymerent, hwy daflent hon i'r dw'r!

Ei gadael wnaento'u gwirfodd, a Duw a'i helpiodd hi,
I'r lan o'r llyn mewn dychryn fe godai'r forwyn gu;
Ac erbyn ei bod wedi cael d'od i fynu o'r dw'r,
Pwy welai ond ei chariad, hyn a'i cysurai'n siwr.

Hi syrthiodd yn ei freichiau, gan ddweyd, Y glanddyn mwyn,
Eich gwas a'ch mam eich hunan fy mywyd sydd am ddwyn;

I'r llyn hwy ddarfu'm taflu, trwm ydyw'r c'ledi clir,
A'u meddwl oedd fy moddi, waith imi'ch caru'n bur.

Atebai'r glanddyn tirion, Fy anwylyd ffraethlon ffri,
Cewch dd'od i ffwrdd yn union, Gwen fwynlon, gyda fi:
A myn'd a wnaent i Le'mster yn dyner erbyn dydd,
Ac yno fe'u priodwyd trwy gariad yn ddigudd.

Ond cyn eu dyfod adre', fe glywai'r fam yn glau,
Dechreuodd a gwallgofi, heb wybod beth a wnai!
At lan y llyn hi redodd, a neidiodd iddo'n wir,
Terfynai'i hoes ei hunan lle buasai'r g'lomen glir!

Y gwas yr hwn fu greulon, i ffwrdd yn union aeth,
Ni chafwyd byth mo'i hanes, rhag ofn y gyfraith gaeth;
A'r wraig a foddai'i hunan, ac aflan oedd y gwaith,
Mae'i henaid wedi myned i'r tragwyddoldeb maith.

Boed hyn o gân yn rhybydd i famau plant y byd,
I beidio rhwystro'u meibion a'u merched fyn'd yn nghyd;
'Ran gormod gwaith bob amser erioed i ddynolryw,
Yw ceisio gosod rhwystrau ar ddim ordeiniodd Duw.

A chwithau ie'ngetid mwynlon hyfrydlon o un fryd,
Wel cerwch er pob cerydd eich gilydd oll i gyd:
Arferwch bob ffyddlondeb, heb annghysondeb sèn,
A byddwch byw mewn llwyddiant a mwyniant byth, Amen.

DIWEDD.

---

*B. Morgan, Argraffydd, Merthyr.*